Defnyddio contractwyr

cyfrifoldeb ar y cyd

Defnyddir y geiriau ‘cleient’ a ‘contractwr’ drwy gydol y daflen hon. At ddibenion y daflen hon, ystyr cleient yw unrhyw gyflogwr yn y sector cyhoeddus neu’r sector preifat sy’n defnyddio contractwyr. Ystyr contractwr yw unrhyw un y bydd cleient yn gofyn iddo weithio yn adeilad y cleient nad yw’n gyflogai i’r cleient. Fodd bynnag, nid yw’r arweiniad yn y daflen hon yn berthnasol i weithwyr asiantaeth na gweithwyr symudol (bydd HSE yn cyhoeddi arweiniad ar wahân am y gweithwyr hyn yn ddiweddarach). Nid yw’n berthnasol ychwaith i eitemau a gaiff eu cludo i adeilad y cleient nac i weithgareddau gwaith a gwmpesir gan Reoliadau Adeiladwaith (Dylunio a Rheoli) 1994. Lle y bo’r Rheoliadau hyn yn berthnasol, bydd gan gleientiaid, contractwyr ac eraill gyfrifoldebau cyfreithiol penodol.

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon wedi'i hanelu at sefyllfaoedd lle y bydd cleientiaid yn defnyddio contractwyr. Mae'n egluro cyfrifoldebau iechyd a diogelwch cyffredinol cleientiaid a chontractwyr i ddiogelu ei gilydd, eu gweithlu ac unrhyw un arall (ee ymwelwyr, pobl sy'n byw'n agos ac aelodau eraill o'r cyhoedd). Gall y cyfrifoldebau hyn, os na chânt eu rheoli'n gywir, arwain at ddigwyddiadau a allai fod yn gostus i bob parti. Mae'r daflen hon yn cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos beth all ddigwydd pan fydd pethau'n mynd o chwith. Yn ogystal â'r effeithiau uniongyrchol, gall achosion o oedi yn y gwaith a hawliadau am iawndal arwain at ragor o broblemau. Bydd yn rhaid i bob parti gydweithio i sicrhau y caiff iechyd a diogelwch eu rheoli'n gywir - bydd hyn yn arbed pethau rhag mynd o chwith yn y lle cyntaf.

Eich cyfrifoldebau

Cwmpesir y gwaith y bydd contractwr yn ymgymryd ag ef ar ran cleient fel arfer gan gontract sifil. Mae'n arfer da cynnwys gofynion iechyd a diogelwch mewn contract o'r fath. Fodd bynnag, diffinnir cyfrifoldebau iechyd a diogelwch gan y gyfraith troseddau ac ni ellir eu trosglwyddo o un parti i'r llall drwy gontract.

Mewn unrhyw berthynas rhwng cleient a chontractwr, bydd gan y **ddau barti** ddyletswyddau o dan gyfraith iechyd a diogelwch. Yn yr un modd, os bydd y contractwr yn cyflogi is-gontractwyr i gyflawni rhywfaint o'r gwaith neu'r gwaith i gyd, bydd gan bob parti rai cyfrifoldebau iechyd a diogelwch. Bydd graddau cyfrifoldebau pob parti yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Neges allweddol:

Bydd gan y ddau barti ddyletswyddau o dan gyfraith iechyd a diogelwch

Gosododd y contractwyr sgaffald ar do bregus heb ffens, a oedd 10m o'r ddaear, er mwyn gallu profi techneg profi gollyngiadau newydd lle'r oedd angen mynediad i fent ar do. Cerddodd gweithredwr ar y to a syrthiodd i'w farwolaeth drwy fent fregus. Cafwyd y cleient yn euog a chafodd ddirwy o £27,000 yn ogystal â chostau am fethu â rhoi gwybodaeth na goruchwyliaeth ddigonol. Cafwyd y contractwr yn euog a chafodd ddirwy o £3,000 yn ogystal â chostau am fethu â rhoi mesurau rheoli a diogelwch syml ar waith.

Beth sydd angen i chi ei wneud

Nodi'r dasg

Bydd angen i gleientiaid nodi pob agwedd ar y gwaith y maent am i'r contractwr ei wneud yn glir, gan gynnwys gwaith yn ystod y camau paratoi a chwblhau. Bydd lefel y risg yn dibynnu ar natur y gwaith. Beth bynnag yw'r risg, bydd angen i gleientiaid ystyried goblygiadau iechyd a diogelwch y gwaith sydd angen ei wneud. Bydd hyn yn cynnwys dewis rhywun addas i gyflawni'r gwaith, asesu'r risgiau, penderfynu pa wybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant sydd eu hangen, sut y bydd y partïon yn cydweithio a sut y caiff y gwaith ei gydlynu, sut yr ymgynghorir â'r gweithlu a lefel y rheoli a'r oruchwyliaeth sydd eu hangen.

Dewis contractwr addas

Mae angen bod y cleientiaid yn fodlon bod contractwyr yn gymwys (hy bod ganddynt ddigon o sgiliau a gwybodaeth) i gyflawni'r gwaith yn ddiogel a heb beryglu iechyd a diogelwch. Bydd y cymhwyster sy'n ofynnol yn dibynnu ar y gwaith sydd angen ei wneud. Sicrhewch fod y contractwyr yn gwybod ac yn deall pa berfformiad rydych yn ei ddisgwyl. Eglurwch eich trefniadau iechyd a diogelwch iddynt. Dangoswch eich gweithdrefnau, systemau hawl, datganiad polisi iechyd a diogelwch iddynt a sicrhewch eu bod yn eu deall ac y byddant yn gweithredu yn unol â hwy.

Defnyddio contractwyr

Bydd angen i chi benderfynu sut y byddwch yn penderfynu pa mor gymwys yw contractwr. Gallech, er enghraifft, ofyn i ddarpar gontractwyr:

- pa brofiad sydd ganddynt yn y math o waith sydd gennych i'w wneud;
- beth yw eu polisïau a'u harferion iechyd a diogelwch;
- am eu perfformiad iechyd a diogelwch diweddar (nifer y damweiniau ac ati);
- pa gymwysterau a sgiliau sydd ganddynt;
- eu gweithdrefn ar gyfer dethol isgontractwyr;
- am eu datganiad dull diogelwch;
- pa hyfforddiant a goruchwyliaeth iechyd a diogelwch y gallant eu darparu;
- eu trefniadau ar gyfer ymgynghori â'u gweithlu;
- a oes ganddynt unrhyw asesiadau annibynnol o'u cymhwyster;
- a ydynt yn aelodau o fasnach neu gorff proffesiynol perthnasol;
- a oes ganddynt hwy neu eu gweithwyr 'basport' mewn hyfforddiant iechyd a diogelwch.

  Mae hon yn duedd gynyddol mewn rhai diwydiannau.

Yna gallwch benderfynu faint o dystiolaeth (ee geirdaon) sydd ei hangen arnoch i ategu'r hyn a ddywedodd darpar gontractwyr wrthych.

Dethol isgontractwr addas

Byddai'n well gadael i'r contractwr ddewis unrhyw isgontractwyr. Fodd bynnag, bydd yn rhaid bod y cleientiaid yn fodlon eu hunain bod gan gontractwr weithdrefn effeithiol ar gyfer arfarnu cymhwyster isgontractwr. Wrth ddethol isgontractwr addas, gall contractwr ddefnyddio rhai, neu bob un o'r meini prawf y gall cleient eu defnyddio wrth ddethol contractwr addas (gweler uchod). Unwaith eto, bydd y radd o gymhwyster gofynnol yn dibynnu ar y gwaith sydd angen ei wneud.

Neges allweddol:

Sicrhewch gymhwyster/proses gydweithredu isgontractwyr

Cyflogwyd contractwr i atgyweirio grisiau symudol mewn adeilad manwerthu. Cafodd y gwaith ei isgontractio. Yn ystod y gwaith, dechreuodd y grisiau symudol yn annisgwyl gan ddal troed y gweithiwr o dan yr haenell gribog. Bu'n rhaid torri rhan o droed y gweithiwr. Cafodd y contractwr ei erlyn am fethu â gwirio cymhwyster yr isgontractwr ac am fethu â chydweithredu â'r isgontractwr. Cafwyd y contractwr yn euog a chafodd ddirwy o £4000 yn ogystal â chostau. Cafodd yr isgontractwr ei erlyn am fethu â gwirio cymhwyster y bobl a oedd yn cyflawni'r gwaith. Cafwyd yr isgontractwr yn euog a chafodd ddirwy o £5000 yn ogystal â chostau.

Defnyddio contractwyr

Asesu risgiau'r gwaith

Bydd yn rhaid cynnal asesiad risgiau a dylai'r cleient a'r contractwr fod yn rhan ohono. Mae taflen am ddim yr HSE Pum cam i asesu risgiau yn rhoi arweiniad i gyflogwyr a phobl hunan-gyflogedig ar asesu risgiau yn y gweithle.

Dylai fod gan y cleient asesiad risgiau eisoes ar gyfer gweithgareddau gwaith ei fusnes ei hun. Bydd yn rhaid i'r contractwr asesu'r risgiau ar gyfer y gwaith sydd wedi'i gontractio ac yna bydd yn rhaid i'r ddau barti ddod ynghyd i ystyried y risgiau hynny o waith ei gilydd a allai effeithio ar iechyd a diogelwch y gweithlu neu unrhyw un arall. Bydd angen i'r cleient a'r contractwr gytuno ar yr asesiad risgiau ar gyfer y gwaith sydd wedi'i gontractio a'r camau ataliol a'r camau diogelu a fydd yn berthnasol pan fydd y gwaith yn mynd yn ei flaen. Os bydd isgontractwyr yn ymwneud â'r gwaith, dylent hwy fod yn rhan o'r drafodaeth a'r cytundeb hefyd.

Neges allweddol:

Cynhaliwch asesiad risgiau

Cafodd contractwr trydanol hunan-gyflogedig anaf wrth weithio yn adeilad cleient pan darodd wagen fforch godi ysgol yr oedd yn gweithio ohoni gan ei symud. Cafodd y cleient ei erlyn am na chynhaliwyd unrhyw asesiad risgiau ac ni roddwyd unrhyw gamau ar waith i sicrhau diogelwch y contractwr. Cafwyd y cleient yn euog a chafodd ddirwy o £9000 yn ogystal â chostau.

Rhoi gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant

Mae'n rhaid i gleientiaid, contractwyr ac isgontractwyr roi gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant i'w cyflogeion ar unrhyw beth a allai effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch. Mae taflen am ddim yr HSE, *Health and safety training. What you need to know* yn nodi beth sydd angen i chi ei wneud.

Bydd angen i bob parti ystyried pa wybodaeth y dylid ei throsglwyddo rhyngddynt a chytuno ar ffyrdd priodol o sicrhau eu bod yn gwneud hyn. Bydd angen iddynt gyfnewid gwybodaeth glir am y risgiau sy'n codi o'u gweithrediadau, gan gynnwys rheolau a gweithrediadau diogelwch perthnasol, a gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion brys. Dylai'r broses hon o gyfnewid gwybodaeth gynnwys manylion am unrhyw risgiau na ellid disgwyl i bartïon eraill yn rhesymol wybod amdanynt. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon fod yn berthnasol i'r gwaith.

Mewn geiriau eraill, mae'n rhaid i chi siarad â'ch gilydd.

Neges allweddol:

Rhowch wybodaeth

Cafodd cleient ei erlyn am fethu â rhoi gwybodaeth i gontractwr a oedd yn gweithio ar deils nenfwd yng nghyntedd blocdwr yr oedd pobl yn byw ynddo. Yn ddiarwybod i'r contractwr, roedd teils y nenfwd yn cynnwys asbestos ac fe'u cludwyd oddi yno mewn ffordd na chafodd ei rheoli, gan roi'r contractwr a'r deiliaid mewn perygl. Cafwyd y cleient yn euog a chafodd ddirwy o £35,000 yn ogystal â chostau.

Defnyddio contractwyr

Bydd angen i'r cyfarwyddyd a'r hyfforddiant a roddir gan y cleient, y contractwr a'r isgontractwr ystyried y risgiau o'u gwaith eu hunain ac o waith ei gilydd.

Cydweithredu a chydlynu

Mewn unrhyw berthynas rhwng cleient a chontractwr, bydd yn rhaid i bob parti gydweithredu a chydlynu eu gwaith, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn y gweithle ac unrhyw un arall y gellid effeithio arnynt. Dylai'r cleient sefydlu trefniadau cyswllt â phob parti. Gallai hyn fod ar ffurf cyfarfodydd neu sesiynau briffio rheolaidd. Mae cysylltu'n arbennig o bwysig lle cynigir amrywiadau ar y gwaith neu lle y mae mwy nag un contractwr neu isgontractwr yn ymwneud â'r gwaith.

Cysylltu â'r gweithlu

Bydd yn rhaid i gleientiaid, contractwyr ac isgontractwyr ymgynghori â'u cyflogeion ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Lle y ceir undebau llafur cydnabyddedig, dylid cynnal sesiynau ymgynghori drwy gynrychiolwyr diogelwch a benodir gan yr undebau. Mae gan undebau llafur rôl bwysig i'w chwarae a gallant ddarparu arbenigedd i helpu ym maes iechyd a diogelwch. Lle na cheir undeb llafur cydnabyddedig, bydd yn rhaid gwneud trefniadau gwahanol ee trwy gynrychiolwyr a etholir gan eu cyflogeion. Pa ffordd bynnag y caiff y gweithlu ei gynrychioli, dylent fod yn rhan o'r trefniadau cyswllt a bennir gan y cleient a dylent ymwneud â'r broses o'r dechrau.

Rheoli a goruchwylio

Bydd yn rhaid i gleientiaid benderfynu beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn rheoli a goruchwylio gwaith y contractwyr yn effeithiol. Po fwyaf o effaith y gallai gwaith y contractwr ei chael ar iechyd a diogelwch unrhyw un y gellid effeithio arno, mwya'n y byd y bydd cyfrifoldebau rheoli a goruchwylio'r cleient. Bydd gan gleientiaid fwy o gyfrifoldebau rheoli a goruchwylio hefyd lle y byddant yn gwybod mwy am oblygiadau iechyd a diogelwch y gwaith sydd wedi'i gontractio na'r contractwr. Ym mhob amgylchiadau, bydd angen digon o wybodaeth ac arbenigedd ar gleientiaid i reoli a goruchwylio'r gwaith sydd wedi'i gontractio. Mae'n hanfodol y cytunir ar natur y rheoliadau a gaiff eu harfer gan y cleient cyn i'r gwaith ddechrau. Rhan bwysig o hyn yw'r trefniadau ar gyfer dethol a rheoli unrhyw isgontractwyr.

Efallai y bydd angen i gleientiaid gytuno gyda'r contractwr ar sut y cyflawnir y gwaith a'r rhagofalon a gymerir. Unwaith eto, penderfynir ar raddau cyfrifoldebau'r cleient gan effaith bosibl gwaith y contractwr ar unrhyw un y gellid effeithio arno. Mae'r materion perthnasol yn cynnwys:

- pa offer y dylid neu na ddylid gweithio arnynt/eu defnyddio;
- yr offer amddiffyn personol a ddefnyddir a phwy fydd yn ei ddarparu;
- gweithdrefnau gwaith, gan gynnwys unrhyw hawlebau i weithio;

Defnyddio contractwyr

- nifer y bobl sydd eu hangen i wneud y gwaith;
- cofnodi damweiniau a chadw cofnodion a chynlluniau'n ddiogel.

Dylai cleientiaid, contractwyr ac isgontractwyr fonitro eu perfformiad iechyd a diogelwch. Golyga hyn sicrhau a yw'r asesiad risgiau wedi'i ddiweddaru a bod mesurau rheoli yn gweithio. Bydd lefel y monitro'n dibynnu ar y risgiau - po fwyaf y risgiau, y mwyaf yw'r gwaith monitro. Dylai cleientiaid gynnal archwiliadau cyfnodol ar berfformiad y contractwr i weld a yw'r gwaith yn cael ei gyflawni fel y cytunwyd. Dylai contractwyr ac isgontractwyr gynnal archwiliadau dyddiol i sicrhau bod yr hyn y dylid ei wneud yn cael ei wneud. Mae'n rhaid hysbysu'r awdurdodau gorfodi o rai damweiniau, afiechydon a digwyddiadau peryglus sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Mae'n arfer da ymchwilio i bob anaf, achos o salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith a 'damweiniau y bu bron iddynt ddigwydd' i ganfod beth a aeth o'i le a pham na chawsant eu hatal. Dylai cleientiaid, contractwyr ac isgontractwyr rannu'r gwersi a ddysgwyd o ddulliau monitro ac ymchwiliadau gyda'i gilydd a chyda'r gweithlu cyfan.

Lle na chaiff gofynion iechyd a diogelwch eu bodloni, y cam cyntaf yw i'r cleient a'r contractwr ganfod y rheswm dros hyn ac unioni pethau. Os na chaiff gofynion o ran perfformiad iechyd a diogelwch eu bodloni, bydd angen i'r cleient atal y contractwr rhag gwneud y gwaith tan y caiff y gofynion eu bodloni.

Defnyddio contractwyr

Dylai'r cleient a'r contractwr adolygu'r gwaith ar ôl ei gwblhau i weld a ellid gwella perfformiad yn y dyfodol.

Neges allweddol:

Rheolwch a goruchwyliwch

Methodd cleient â goruchwylio contractwr a oedd yn gweithio o dan ei reolaeth a methodd â sicrhau ei fod yn gymwys. Methodd y cleient â rheoli mynediad i'w is-orsafoedd ac i gyhoeddi cyfarwyddiadau clir hefyd. Ni chafodd blychau ffiwsiau agored foltedd isel eu gorchuddio'n ddigonol ac nid oedd system ysgrifenedig ffurfiol ar gael ar gyfer rheoli contractau bach. Arweiniodd cyfuniad o'r diffygion hyn at drydanwr ar brentisiaeth yn cael anaf difrifol. Cafwyd y cleient yn euog a chafodd ddirwy o £50,000 yn ogystal â chostau. Methodd y contractwr â rheoli'r broses o osod dwy ffan nenfwd yn yr is-orsafoedd a chafwyd ef yn euog a chafodd ddirwy o £30,000 yn ogystal â chostau. Methodd y trydanwr profiadol a oedd yn goruchwylio gweithgarwch y trydanwr ar brentisiaeth â chymryd camau syml i atal cyswllt ag offer byw a chafwyd ef yn euog a chafodd ddirwy o £1000 yn ogystal â chostau.

Cyfraith iechyd a diogelwch

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn arbennig o bwysig mewn unrhyw berthynas rhwng cleient a chontractwr. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi gofynion ar gyfer system rheoli iechyd a diogelwch ym mhob gweithle, ac mae'r Cod Ymarfer Cymeradwy ategol yn rhoi cyngor ar gydymffurfio.

Mae gan gleientiaid a chontractwyr gyfrifoldebau cyfreithiol o dan reoliadau iechyd a diogelwch sy'n delio â pheryglon penodol (ee Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 1999, Rheoliadau Rheoli Plwm yn y Gwaith 1998 a Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 1987).

Dod o hyd i ragor o wybodaeth

Management of health and safety at work. Management of Health and Safety at Work Regulations 1999. Approved Code of Practice and Guidance L21 (Ail argraffiad) HSE Books 2000 ISBN 0 7176 2488 9

Managing health and safety in construction: Construction (Design and Management) Regulations 1994. Approved Code of Practice and Guidance HSG224 HSE Books 2001 ISBN 0 7176 2139 1

Pum cam i asesu risgiau Taflen INDG163(W) (diwyg 1) HSE Books 1998 (mae copi unigol am ddim neu mae ar werth mewn pecynnau o 10 ISBN 0 7176 1565 0)

Starting your business: Guidance on preparing a health and safety policy document for small firms Taflen INDG324 HSE Books 2000 (mae copi unigol am ddim neu mae ar werth mewn pecynnau o 5 ISBN 0 7176 1799 8)

Canllaw i Reoliadau Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus 1995 L73(W) (Ail argraffiad) HSE Books 1999 ISBN 0 7176 2431 5

Defnyddio contractwyr

Health and safety training: What you need to know Taflen INDG345 HSE Books 2001 (mae copi unigol am ddim neu mae ar werth mewn pecynnau o 15 ISBN 0 7176 2137 5)

Managing contractors: A guide for employers HSG159 HSE Books 1997 ISBN 0 7176 1196 5

Working together: Guidance on health and safety for contractors and suppliers Taflen INDG268 (diwyg) HSE Books 2002 (mae copi unigol am ddim neu mae ar werth mewn pecynnau o 10 ISBN 0 7176 2253 3)

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan HSE yn www.hse.gov.uk

Defnyddio contractwyr

Defnyddio contractwyr

Mae cyhoeddiadau ar werth a chyhoeddiadau am ddim yr HSE ar gael i'w harchebu drwy'r post o HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA
Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim o wefan HSE: www.hse.gov.uk)

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch linell wybodaeth HSE,
Ffôn: 08701 545500 Ffacs: 02920 859260 e-bost: hseinformationservices@natbrit.com neu ysgrifennwch at Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad yw'n orfodol ond a allai fod o ddefnydd i chi wrth ystyried yr hyn sydd angen i chi ei wneud.

Mae'r daflen hon ar gael mewn pecynnau o 10 sydd ar werth o HSE Books,
ISBN 0 7176 2931 7. Mae copïau unigol am ddim ar gael hefyd o HSE Books.

©℗ *Hawlfraint y Goron*. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, ardystio neu werthu. Cyhoeddwyd gyntaf 05/04.
Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.